Mumbles Community Council

# Minutes of the Monthly Meeting of Mumbles Community Council held on 14 May 2024 at 6.30pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

**Members Present:** Cllrs Martin O'Neill (Chair), Cllrs Will Thomas (Vice-Chair),Pamela Erasmus, Rob Marshall, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Emilia Cox, Angela O'Connor, Sara Keeton, Phil Keeton and Richard Jarvis

**Officers Present**: Kerry Grabham - Clerk, and Ian Hughes – CSO

**C02405-01** **Apologies for Absence:** Cllrs Hannah Hunter, Rhian Evans and Helen Nelson.

**C02405-02** **Declarations of Interest:**
None

Cllrs Tim Zhou and Emilie Cox joined the meeting at 6.31pm

**C02405-03** **Public Participation**
No members of the public were present and no representations from the public were made prior to the meeting commencing.

**C02405-04** **To approve the minutes of the Special Council Meeting on 01.05.2024**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 1st May 2024 as a true record.

**C02405-05** **To approve the minutes of the Annual Meeting on 07.05.2024**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 7th May 2024 as a true record.

**C02405-06** **Clerk's Report**
The Clerk read out her report highlighting her gratitude to the outgoing chairs of committees and congratulating the newly appointed chairs, whilst looking forward to continued co-operation and further success

**RESOLVED** to note the report.

Cllr Phil Keeton joined the meeting at 6.35pm

**CO2405-07** **Chair's Report**

The Chair, Cllr O'Neill read out his report which focused on the new format of committee chairs providing written reports to The Clerk prior to Full Council Meetings. In addition, Cllr O'Neill stressed the importance of Councillors making requests for officers to carry out tasks, to be made directly to The Clerk.

**RESOLVED** to note the report.

Cllr Angela O'Connor joined the meeting at 6.38pm

**CO2405-08** **Financial Reports for May**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, in the absence of The RFO the Clerk offered to take questions in relation to these reports.

A discussion ensued relating to the clarification of expenditure including £500 spent on fish and chips which related to special events for Coffee with Friends.

**ACTION**: RFO, Paul Beynon to make access to spending more accessible for the 'lay' person when preparing reports.

**RESOLVED** to retrospectively approve payments made by the RFO for April 2024.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report for March 2024.

**RESOLVED** to approve the fixed assets and long-term investments document.

**RESOLVED** to note the fixed assets and long-term investments report.

**CO2405-09** **Report from Outgoing Chair of Finance and Compliance Committee.**

The outgoing Chair, of this committee, Cllr Scott had nothing new to report.

**CO2405-10** **Report from Chair of Community & Social Committee**

The outgoing Chair, of this committee, Cllr Erasmus had nothing new to report.

**CO2405-11** **Report from Chair of Environmental Committee**

The outgoing Chair, of this committee, Cllr Nelson was not present, and no questions were raised in relation to this committee.

**CO2405-12** **Report from Chair of Culture, Tourism and Communications Committee**

The outgoing Chair, Cllr. Marshall confirmed that plans for MumblesFest were all in hand.

**ACTION:** Cllr Marshall to e-mail all Councillors requesting their support on MumblesFest Day.

**ACTION:** The Clerk will be e-mailing all Councillors the programme of events for MumblesFest.

**CO2405-13** **To consider the re-establishment of Planning & Development Committee**

A discussion took place on the merits of MCC having a planning committee, previously there had been a separate body whose responsibilities had been absorbed into The Environmental Committee. Councillors believed that this avenue for addressing concerns was not providing an opportunity for MCC to give feedback on concerns. Whilst not every planning application should be considered, Councillors believed that when a major project/development is considered such as the Pier Development or Ripples Ice Cream Parlour being demolished the public expect MCC to have an opinion and that Councillors should lend support to issues as appropriate.

**RESOLVED:** The Clerk to look at practices within similar Community Councils and Swansea Council and provide feedback at June's Full Council Meeting.

**CO2405-14** **To consider correspondence from MCA**

Documents had previously been circulated and The Clerk invited Councillors to provide feedback. Cllr Thomas stated that he was in liaison with Newton Rangers, who were now hopeful that Tier 3 facilities for football will be provided to Underhill Park. Cllr Thomas will continue to update Full Council on developments.

Cllrs Sara Keeton and Phil Keeton who had been participating remotely in the meeting, joined in person at 7.07pm

The Clerk stated that allowing for Officers being available, MCC would be providing an Environmental Stand at a Fun Day Event on 13th July 2024 at Underhill Park.

**CO2405-15** **To consider correspondence from Mumbles Rugby Club**

An e-mail from Simon Evans, the chair of Mumbles Rugby Club had been circulated to committee members prior to the meeting. This outlined the Rugby Club's intention to sell their current premises on Mumbles Seafront and create a sports centre at The Hub's Pavilion in Underhill Park. This would provide facilities for local football and cricket teams, in addition to The Rugby Club. Whilst planning applications would need to be submitted to Swansea City Council, support in principle was being sought from MCC.

A discussion ensued and the majority of Councillors were enthusiastic in developing the hub and safeguarding the future of Mumbles Rugby Club, an important local asset for the community. Whilst the correspondence sought a 'blessing in principle' to the Rugby Club's proposal, reservations were raised over providing further financial assistance when considerable MCC funds had already been donated to The Underhill Development. It was also noted that MCC are already supporting Mumbles Yacht Club who are currently undertaking a similar transition, selling their current premises with a view to moving elsewhere. Other concerns included the potential loss of changing room facilities, the impact of bar sales on the current Hub facilities, the impact to the local neighbourhood including excess noise, confirmation that other sporting bodies including Newton Rangers would have full

participation in the proposed arrangement and the need for a sound business plan including the running of the new 'Pavilion Bar'.
In addition to the above there was a view by some Councillors that these new proposals in relation to The Pavilion should be put forward for recommendation by MCA and not Mumble Rugby Club.

**RESOLVED:** The Clerk will write to Mumbles Club offering support in principle to the proposal but seeking clarification on the concerns raised above. The Clerk will circulate a draft letter to Councillors for comments prior to it being sent.

**CO2405-16** **To consider correspondence from BT and adoption of the BT Phone Kiosk at Glen Road West Cross**

A discussion took place on the merits of adopting the phone kiosk in question. Although there were some reservations concerning the potential for untidiness the majority of Councillors believed that the adoption would benefit the wider community through using the kiosk for beneficial purposes such as book swapping and storing a defibrillator. In the event of the proposal being accepted small repairs would be necessary including glass panes being replaced; and the participation of those in the community proposing the idea would be required in maintaining the kiosk.

**RESOLVED** to accept to the above proposal.

**CO2405-17** **To appoint a School Governor for Llwynderw School**

Following Cllr Evans' appointment as Llwynderw School Governor at May's MCC Annual Meeting, she withdrew her nomination. A discussion took place on the need for speaking Welsh in the role. Whilst not essential Councillors believed that this was a necessary requirement in order to fully participate at meetings. None of the councillors present at the meeting volunteered to take up this post.

**RESLOVED**: The Clerk will write to all Councillors inviting them to take up the vacant post of the Llwynderw School Governor. In the event of no Councillor volunteering to take up the post The Clerk will write to Llwynderw School, informing them of the Councillors reservations due to not speaking Welsh fluently.

**CO2405-18** **To consider the request from Cllr Rhain Evans to move from Environmental Committee to Culture Committee**

**RESOLVED** to accept to the above proposal

**CO2405-19** **To approve the contribution of £100 to hosts of Mme Le Marechal Hennebont Twinning Representative.**

Both Cllrs Sara and Phil Keeton declared a personal interest in this agenda item as they will be the recipients of any financial contribution due to them hosting visitors from Hennebont,
A discussion took place over funding of twinning events and in particular for the hosting of visitors in relation to June's visit to Swansea of representatives from Heenebont. The Chair, Cllr O'Neill offered

to provide £100 from the Chair's Allowance for the purpose of contributing to the cost of hosting Hennebont guests.

**RESOLVED** Cllr O'Neill to make a contribution of £100 from the Chair's Allowance towards the cost of hosting Hennebont twinning representatives.

**CO2405-20** **To approve the continued Co-option of Ed Hall, Cllr Chris Evans and a representative from Plastic Free Mumbles on to Environmental Committee**

**RESOLVED** to accept to the above proposal

Meeting Finished at 7.43pm

Next meeting 11th June 2024

# Cofnodion Cyfarfod Misol
# Cyngor Cymuned y Mwmbwls
# a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024 am 6.30pm
# (Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

**Aelodau yn bresennol:** Y Cynghorwyr Martin O'Neill (Cadeirydd), y Cynghorwyr Will Thomas (Is-gadeirydd), Pamela Erasmus, Rob Marshall, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Emilia Cox, Angela O'Connor, Sara Keeton, Phil Keeton a Richard Jarvis

**Swyddogion yn bresennol**: Kerry Grabham – Clerc, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CO2405-01** **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** y cynghorwyr Hannah Hunter, Rhian Evans a Helen Nelson.

**CO2405-02** **Datganiadau o fuddiant:**
Dim

Ymunodd y Cynghorwyr Tim Zhou ac Emilie Cox â'r cyfarfod am 6.31pm

**CO2405-03** **Cyfranogiad y cyhoedd**
Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac ni wnaed unrhyw sylwadau gan y cyhoedd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**CO2405-04** **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod arbennig y cyngor a gynhaliwyd ar 01.05.2024**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2024 fel rhai cywir.

**CO2405-05** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blynyddol ar 07.05.2024**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2024 fel rhai cywir.

**CO2405-06** **Adroddiad y Clerc**
Darllenodd y Clerc ei hadroddiad yn amlygu ei diolch i gadeiryddion y pwyllgorau sy'n gadael a llongyfarch y cadeiryddion newydd, ac roedd yn edrych ymlaen at gydweithrediad parhaus a llwyddiant pellach

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

Ymunodd y Cynghorydd Phil Keeton â'r cyfarfod am 6.35pm

C02405-07 **Adroddiad y cadeirydd**

Darllenodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill ei adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar fformat newydd cadeiryddion pwyllgorau yn darparu adroddiadau ysgrifenedig i'r Clerc cyn cyfarfodydd y cyngor llawn. Yn ogystal, pwysleisiodd y Cynghorydd O'Neill bwysigrwydd pan fo cynghorwyr yn gwneud ceisiadau i swyddogion gyflawni tasgau, eu bod yn eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Clerc.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

Ymunodd y Cynghorydd Angela O'Connor â'r cyfarfod am 6.38pm

C02405-08 **Adroddiadau ariannol ar gyfer mis Mai**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) Paul Beynon eisoes wedi'u darparu i gynghorwyr, yn absenoldeb y SAC cynigiodd y Clerc gymryd cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiadau hyn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag egluro gwariant gan gynnwys £500 a wariwyd ar bysgod a sglodion mewn digwyddiadau arbennig ar gyfer Coffi gyda Chyfeillion.

**CAM GWEITHREDU:** bod y SAC, Paul Beynon yn gwneud mynediad at wariant yn fwy hygyrch i'r person 'lleyg' wrth baratoi adroddiadau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo taliadau a wnaed gan y SAC ar gyfer Ebrill 2024 yn ôl-weithredol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Mawrth 2024.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ddogfen asedau sefydlog a buddsoddiadau hirdymor.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad asedau sefydlog a buddsoddiadau hirdymor.

C02405-09

**Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth sy'n gadael.**

C02405-10 Nid oedd gan gadeirydd y pwyllgor hwn y mae ei gyfnod yn dod i ben, y Cynghorydd Scott, ddim byd newydd i'w adrodd.

**Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedol a Chymdeithasol**

C02405-11 Nid oedd gan gadeirydd y pwyllgor hwn y mae ei gyfnod yn dod i ben, y Cynghorydd Erasmus, ddim byd newydd i'w adrodd.

**Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylcheddol**

C02405-12 Nid oedd cadeirydd y pwyllgor hwn y mae ei gyfnod yn dod i ben, y Cynghorydd Nelson, yn bresennol, ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r pwyllgor hwn.

**Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu**

Cadarnhaodd y cadeirydd y mae ei gyfnod yn dod i ben, y Cynghorydd Marshall fod cynlluniau ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls i gyd ar y gweill.

**CAM GWEITHREDU:** bod y Cynghorydd Marshall yn e-bostio'r holl gynghorwyr yn gofyn am eu cefnogaeth ar ddiwrnod Gŵyl y Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU:** bydd y Clerc yn e-bostio rhaglen ddigwyddiadau Gŵyl y Mwmbwls at yr holl gynghorwyr.

**CO2405-13**

**Ystyried ailsefydlu'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu**

Cafwyd trafodaeth ar rinweddau bod Cyngor Cymunedol y Mwmbwls yn cael pwyllgor cynllunio. Cyn hyn roedd corff ar wahân ond bellach mae ei gyfrifoldebau dan adain y Pwyllgor Amgylcheddol. Credai'r cynghorwyr nad oedd y llwybr hwn ar gyfer mynd i'r afael â phryderon yn rhoi cyfle i Gyngor Cymuned y Mwmbwls roi adborth ar bryderon. Er na ddylid ystyried pob cais cynllunio, roedd y cynghorwyr yn credu pan fydd prosiect/datblygiad mawr yn cael ei ystyried megis datblygiad y pier neu ddymchwel Ripples Ice Cream Parlour, bod y cyhoedd yn disgwyl i Gyngor Cymuned y Mwmbwls gael barn ac y dylai cynghorwyr gefnogi materion fel y bo'n briodol.

**PENDERFYNWYD:** bod y Clerc yn edrych ar arferion o fewn cynghorau cymuned tebyg a Chyngor Abertawe a rhoi adborth yng nghyfarfod y cyngor llawn ym mis Mehefin.

**CO2405-14**

**Ystyried gohebiaeth gan Gymdeithas Gymunedol y Mwmbwls**

Roedd dogfennau eisoes wedi'u dosbarthu a gwahoddodd y Clerc y cynghorwyr i roi adborth. Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod mewn cysylltiad â Newton Rangers, a oedd bellach yn obeithiol y bydd cyfleusterau haen 3 ar gyfer pêl-droed yn cael eu darparu i Barc Underhill. Bydd y Cynghorydd Thomas yn parhau i ddiweddaru'r cyngor llawn ar ddatblygiadau.

Ymunodd y Cynghorydd Sara Keeton a Phil Keeton a oedd wedi bod yn cymryd rhan o bell yn y cyfarfod, yn bersonol am 7.07pm

Dywedodd y Clerc y byddai Cyngor Cymuned y Mwmbwls, yn caniatáu i swyddogion fod ar gael, yn darparu Stondin Amgylcheddol mewn digwyddiad Diwrnod Hwyl ar 13eg Gorffennaf 2024 ym Mharc Underhill.

**CO2405-15**

**Ystyried gohebiaeth gan Glwb Rygbi'r Mwmbwls**

Roedd e-bost oddi wrth Simon Evans, cadeirydd Clwb Rygbi'r Mwmbwls wedi'i ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Roedd hwn yn amlinellu bwriad y Clwb Rygbi i werthu ei safle presennol ar lan môr y Mwmbwls a chreu canolfan chwaraeon ym mhafiliwn yr Hyb ym Mharc Underhill. Byddai hyn yn darparu cyfleusterau ar gyfer timau pêl-droed a chriced lleol, yn ogystal â'r clwb rygbi. Er y byddai angen cyflwyno ceisiadau cynllunio i Gyngor Dinas Abertawe, roedd yn gofyn am gefnogaeth mewn egwyddor gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Cafwyd trafodaeth ac roedd y mwyafrif o'r cynghorwyr yn frwdfrydig am ddatblygu'r hyb a diogelu dyfodol Clwb Rygbi'r Mwmbwls, ased lleol pwysig i'r gymuned. Er bod yr ohebiaeth yn gofyn am 'fendith

mewn egwyddor' i gynnig y clwb rygbi, codwyd amheuon ynghylch darparu cymorth ariannol pellach pan oedd Cyngor Cymuned y Mwmbwls eisoes wedi rhoi arian sylweddol i ddatblygiad Underhill. Nodwyd hefyd fod Cyngor Cymuned y Mwmbwls eisoes yn cefnogi Clwb Hwylio'r Mwmbwls sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â thrawsnewidiadau tebyg, gan werthu eu hadeilad presennol gyda'r bwriad o symud i rywle arall. Roedd pryderon eraill yn cynnwys y posibilrwydd o golli cyfleusterau ystafell newid, effaith gwerthiannau'r bar ar gyfleusterau presennol yr Hyb, yr effaith ar y gymdogaeth leol gan gynnwys sŵn gormodol, cadarnhad y byddai cyrff chwaraeon eraill gan gynnwys Newton Rangers yn cymryd rhan lawn yn y trefniant arfaethedig a'r angen am gynllun busnes cadarn gan gynnwys ar gyfer rhedeg bar newydd y pafiliwn.
Yn ogystal â'r uchod, roedd rhai cynghorwyr o'r farn y dylai'r cynigion newydd hyn mewn perthynas â'r pafiliwn gael eu cyflwyno i'w hargymell gan Gymdeithas Cymunedol y Mwmbwls ac nid Clwb Rygbi'r Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD:** bod y Clerc yn ysgrifennu at Glwb Rygbi'r Mwmbwls yn cynnig cefnogaeth mewn egwyddor i'r cynnig ond yn gofyn am eglurhad ar y pryderon a nodwyd uchod. Bydd y Clerc yn dosbarthu llythyr drafft i gynghorwyr am sylwadau cyn iddo gael ei anfon.

**CO2405-16**

**Ystyried gohebiaeth gan BT a mabwysiadu ciosg ffôn BT yn Glen Road, West Cross**

Cafwyd trafodaeth ar rinweddau mabwysiadu'r ciosg ffôn dan sylw. Er bod rhai amheuon ynghylch y posibilrwydd o flerwch roedd y mwyafrif o'r cynghorwyr yn credu y byddai'r cynllun mabwysiadu o fudd i'r gymuned ehangach drwy ddefnyddio'r ciosg at ddibenion buddiol megis cyfnewid llyfrau a storio diffibriliwr. Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn byddai angen mân waith atgyweirio gan gynnwys gosod paneli gwydr newydd; a byddai angen cyfranogiad y rhai yn y gymuned sy'n cynnig y syniad i gynnal y ciosg.

**PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig uchod.

**CO2405-17**

**Penodi llywodraethwr ysgol ar gyfer Ysgol Llwynderw**

Yn dilyn penodiad y Cynghorydd Evans fel llywodraethwr Ysgol Llwynderw yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Cymunedol y Mwmbwls ym mis Mai, tynnodd ei henwebiad yn ôl. Cafwyd trafodaeth ar yr angen i allu siarad Cymraeg yn y rôl. Er nad oedd yn hanfodol credai'r cynghorwyr fod hwn yn ofyniad angenrheidiol er mwyn cymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd. Ni wirfoddolodd yr un o'r cynghorwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i gymryd y swydd hon.

**PENDERFYNWYD:** bod y Clerc yn ysgrifennu at bob cynghorydd yn eu gwahodd i gymryd swydd wag llywodraethwr Ysgol Llwynderw. Os na fydd cynghorydd yn gwirfoddoli i gymryd y swydd bydd y Clerc yn ysgrifennu at Ysgol Llwynderw yn eu hysbysu o amheuon y cynghorwyr oherwydd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

**CO2405-18**

**Ystyried cais y Cynghorydd Rhian Evans i symud o'r Pwyllgor Amgylcheddol i'r Pwyllgor Diwylliant**

**PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig uchod

**CO2405-19**

**Cymeradwyo'r cyfraniad o £100 i westeiwyr cynrychiolydd gefeillio Hennebont, Mme Le Marechal.**

Datganodd y cynghorwyr Sara a Phil Keeton fuddiant personol yn yr eitem hon ar yr agenda gan mai nhw fydd yn derbyn unrhyw gyfraniad ariannol oherwydd eu bod yn lletya ymwelwyr o Hennebont. Cafwyd trafodaeth ynghylch ariannu digwyddiadau gefeillio ac yn arbennig lletya ymwelwyr mewn perthynas ag ymweliad cynrychiolwyr o Heenebont ag Abertawe ym mis Mehefin. Cynigiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, ddarparu £100 o lwfans y cadeirydd er mwyn cyfrannu at gost cynnal gwesteion Hennebont.

**PENDERFYNWYD** bod y Cynghorydd O'Neill yn gwneud cyfraniad o £100 o lwfans y cadeirydd tuag at gost croesawu cynrychiolwyr gefeillio Hennebont.

**CO2405-20** **Cymeradwyo parhau i gyfethol Ed Hall, y Cynghorydd Chris Evans a chynrychiolydd o'r Mwmbwls Di-blastig i'r Pwyllgor Amgylcheddol**

**PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig uchod

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.43pm

Cyfarfod nesaf 11 Mehefin 2024